# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## 27 CHWEFROR 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas and J.E. Williams.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd H.A.L. Evans mewn perthynas â chais cynllunio W/39148.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig;
E. Jones, Swyddog Rheoli Datblygu;
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain);
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio);
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP: 11:30yb - 12:55yp**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Mr Kevin James, a fu farw'n ddiweddar yn dilyn salwch byr, dim ond ychydig fisoedd ar ôl iddo ymddeol. Mr James oedd y Cyn-beiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio) a oedd wedi bod yn bresennol ar gyfer nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. **YSTRIED ADRODDIADAU'R PENNAETH CYNLLUNIO YNGHYLCH Y CEIS CYNLLUNIO CANLYNOL [YR YMWELODD Y PWYLLGOR A'U SAFLEOEDD YN FLAENOROL] A PHENDERFYNU AR Y CEISIADAU**

3.1. **W/39590 - BWRIAD I NEWID DEFNYDD Y TIR O DIR PORI I WERSYLLFA - I GYNNWYS 1 CWT BUGAIL MOETHUS A PHUM PABELL YN PENRHIWSYCH, GLANTREN LANE, LLANYBYDDER, SA40 9SA**

[Sylwer:

- Nid oedd y Cynghorwyr C. Jones a G.B. Thomas yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2020 ac er iddynt aros yn y Siambr yn ystod y trafodaethau, nid oeddent wedi cymryd rhan yn y penderfyniad nac wedi pleidleisio ar benderfyniad y cais.

- Nid oedd y Cynghorwyr W.T. Evans a D. Jones yn bresennol ar gyfer yr ymweliad safle ac felly nid oeddent wedi cymryd rhan yn y penderfyniad nac wedi pleidleisio ar benderfyniad y cais hwn.]

Cyfeiriodd y Swyddog Rheoli Datblygu (Dwyrain) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 6.1 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 14 Ionawr 2020), a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y datblygiad arfaethedig i asesu'r effaith ar y briffordd.

Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedodd fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad ysgrifenedig.

Cyflwynwyd sylw gan yr Aelod Lleol ynghylch y datblygiad arfaethedig, ac iddo gydnabod rhai o'r gwrthwynebiadau a nodwyd yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, mynegodd ei fod yn cefnogi'r datblygiad gan y byddai'n annog ymwelwyr i'r ardal gan ychwanegu at yr economi leol.

**PENDERFYNWYD caniatáu Cais Cynllunio W/39590, yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.**

## 4. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

4.1 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/39148** | **Adeiladu ystafell arddangos a swyddfeydd, a chreu maes parcio ar dir yn Pentop Farm, Castellnewydd Emlyn, SA38 9NW** |
| **W/39068** | **Preswylfeydd arfaethedig gyda garejis integredig ar leiniau 7 ac 8, tir cyferbyn â Golwg y Dyffryn, Capel Dewi, Caerfyrddin, SA32 8AD** |

4.2 **PENDERFYNNWYD yn unfrydol ganiatáu Cais Cynllun W/39684, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio i'w wrthod, ar y sail ganlynol:**

**4.1.1 bod y Pwyllgor o'r farn bod y cais yn cydymffurfio â Pholisïau H5, GP1, TSM4 ac EMP4;**

**4.1.2 bod y Pennaeth Cynllunio'n cael ei awdurdodi i bennu amodau priodol gan gynnwys:**

**a) bod y caniatâd yn ddilys am gyfnod o 2 flynedd;**
**b) bod y mynediad presennol yn cael ei gau;**
**c) sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynlluniau a'r disgrifiad;**
**d) cymeradwyaeth y rhestr ddeunyddiau.**

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 30AIN IONAWR, 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020 yn gofnod cywir.**

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarlledidiad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]